

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Abertawe	Gorseinon Community Car Scheme	Bydd Cynllun Car Cymunedol Gorseinon yn Abertawe yn prynu cerbyd newydd, gan ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol â phroblemau symudedd. Bydd £10,000 yn rhannol ariannu bws mini.
Abertawe	Newton Primary School	Bydd Ysgol Gynradd Newton yn Abertawe yn datblygu gardd gymunedol, tra hefyd yn rhoi planhigion mewn ardaloedd cymunedol lleol, yn gwella perthnasoedd rhwng cenedlaethau cymunedol, ac yn darparu sgiliau i bobl ifanc ddi-waith. Bydd £10,000 yn ariannu planwyr, adnoddau storio, offer, planhigion a chompost.
Blenau Gwent	Blaenau Gwent (Abertillery) Community Association	Bydd Cymdeithas Gymunedol Blaenau Gwent (Abertillery) yn defnyddio'r grant i sefydlu dosbarthiadau hunanamddiffyn i ferched, dosbarthiadau yoga, hyfforddiant cylched a rhai ffitrwydd i bobl ifanc, y gofynnwyd amdanynt gan eu cymuned. Bydd y grant hwn o £8,276 yn ariannu dwy felin draed, dau feic, dau beiriant rhwyfo, cross trainer, matiau, eitemau bocsio cicio, set pwysau, mainc ac offer campfa eraill.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Caerdydd	Cardiff Community Cricket Cup	Bydd Cwpan Criced Cymunedol Caerdydd yn dod â chymunedau gwahanol ynghyd, a helpu pobl o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i deimlo'n fwy integredig yn y gymuned ehangach. Bydd y grant hwn o £4,600 yn ariannu llogi cae, costau staff ac offer.
Caerdydd	Home4U Cardiff	Bydd Home4U Caerdydd yn darparu cefnogaeth a llety i geiswyr lloches wrth iddynt archwilio eu hawliau cyfreithiol i aros yn y DU. Bydd £7,362 yn ariannu costau staff, hyfforddiant a chostau teithio.
Caerdydd	MENFA Mentoring For All	Bydd MENFA Mentoring For All yng Nghaerdydd yn rhedeg cynllun chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc ddifreintiedig yn eu cymuned leol ar benwythnosau ac yn ystod yr haf. Bydd £10,000 yn ariannu trafndiaeth, costau hyfforddi, costau gwirfoddolwyr a staff, cyfleustodau a deunyddiau cyhoeddusrwydd.
Caerdydd	The Trinity Project	Bydd Prosiect y Drindod yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant i gynnal sesiynau tyfu gyda ffoaduriaid a'r gymuned leol i gefnogi bwyta'n iach a chydlyniant cymunedol. Bydd £10,000 yn ariannu gorbenion rhandiroedd, staff, trafndiaeth a deunyddiau gardd.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Caerffili	Kotatsu Japanese Animation Festival	Bydd Gŵyl Animeiddio Japaneaidd Kotatsu yn cynnal gweithdai animeiddio rhyngweithiol ar gyfer plant ysgol yng Nghaerdydd a Chaerffili, ac yn dod â chymuned Japan yng Nghymru ynghyd trwy wirfoddoli a gweithgareddau diwylliannol. Bydd £6,300 yn ariannu costau staff, offer TG a ffilmio, costau gwirfoddolwyr, yswiriant, trafndiaeth, a llogi lleoliadau.
Casnewydd	Just Because Education	Bydd Just Because Education yn dysgu bechgyn rhwng 13 a 15 oed ledled Cymru am sut i adeiladu perthnasoedd cryf a chadarnhaol, wrth eu cefnogi i lywio'r heriau o fod yn oedolion ifanc. Bydd £10,000 yn ariannu llinell ffon, Blwch Post, cyflenwadau swyddfa, yswiriant, cynhadledd, cyfryngau cymdeithasol, gwerthuso effaith, trafndiaeth a staff.
Pen-y-bont ar Ogwr	Memorial Hall (Coychurch)	Bydd Neuadd Goffa Llangrallo yn defnyddio cyllid cyfalaf i adnewyddu'r cyfleuster cymunedol presennol yn llwyr i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r safonau cyfredol ac yn addas at y diben. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion llaith yn y waliau a'r to, gwella cyfleusterau toiled, cegin a datrysiadau storio. Bydd y fynedfa a'r maes parcio hefyd yn cael eu hadnewyddu. £45,000 dros flwyddyn, am dalu costau datblygu'r cynlluniau a'r costau ar gyfer cam adeiladu'r prosiect.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Powys	Merthyr Cynog Community Hall	Bydd Neuadd Gymunedol Merthyr Cynog yn disodli'r to sydd wedi dyddio ac yn gollwng, gan ganiatáu amgylchedd mwy diogel a chynhesach i'r holl grwpiau defnyddwyr presennol a newydd. Bydd y grant o £42,300, dros flwyddyn, yn darparu costau llawn ailosod y to, gan gynnwys sgaffaldiau, gwteri a llechi ffibr sment.
Rhondda Cynon Taf	Denmark Street Big Band CIC	Bydd Denmark Street Big Band CIC yn defnyddio'r grant i drefnu sesiynau a digwyddiadau gweithdy cerdd a fydd yn ennyn diddordeb pobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf i hwyluso perthnasoedd rhwng cenedlaethau a hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol. Bydd £9,325 yn ariannu costau sesiwn/staff llawrydd, costau marchnata, gweithdy a digwyddiadau, gwiriadau DBS, teithio, lluniaeth a hyfforddiant staff.
Rhondda Cynon Taf	Gelli Life for Living	Bydd Gelli Life for Living yn Rhondda Cynon Taf yn defnyddio'r grant i ddarparu gweithgareddau a theithiau i grŵp o oedolion agored i niwed i hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a chynhwysiant cadarnhaol. Bydd £7,535 yn ariannu lluniaeth, staff cymorth ychwanegol, deunyddiau celf a chrefft, costau digwyddiadau, a threuliau gwirfoddolwyr.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Rhondda Cynon Taf	Rhondda Hearing Impaired Support Group	Bydd Grŵp Cymorth Nam Clyw Rhondda yn Rhondda Cynon Taf yn darparu gweithgareddau cymdeithasol i aelodau o'r gymuned fyddar, sydd naill ai'n fyddar, yn drwm eu clyw, yn fyddar ddall, neu'n profi tinnitus. Bydd £1,160 yn ariannu costau cludiant, a ffioedd mynediad.
Sir Benfro	The Old Mill Foundation	Bydd The Old Mill Foundation yn ehangu gwasanaethau cymorth cancr i bobl yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Arberth (Sir Benfro). Cyflogir rheolwr prosiect a gweithwyr sesiynol i oruchwylio'r ddarpariaeth o amryw o weithgareddau a sesiynau meithrin sgiliau i wella hyder a lleihau unigedd. Bydd y prosiect yn cael ei ddarparu i unrhyw un y mae cancr yn effeithio arno ac yn sicrhau eu bod yn gallu cyrchu gwasanaethau yn eu hardal eu hunain. £99,348 dros ddwy flynedd, yn talu cyflogau a chostau rhedeg prosiect.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir Dinbych	Denbighshire Home-Start	Bydd Home Start Sir Ddinbych yn uwchsgilio eu gwirfoddolwyr trwy hyfforddiant allanol i fynd i'r afael â heriau penodol a nodwyd gan y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys cam-drin domestig, cam-drin cyffuriau, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl gwael, tlodi a rheoli ymddygiad plant anodd. Bydd £6,000 yn ariannu hyfforddwr, cymorth gweinyddol, llogi ystafell, treuliau gwirfoddolwyr, lluniaeth, gwerthuso a chyflenwadau swyddfa.
Sir Gaerfyrddin	Amman Valley Trotting Club Ltd	Bydd Amman Valley Trotting Club Ltd yn gwneud gwaith cyfalaf i ysgubor sy'n bodoli eisoes, er mwyn darparu gwasanaethau cymunedol. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys hyfforddiant gwirfoddol a chyfleoedd cyfranogi megis hylendid cegin, archebu bwyd, cynllunio a pharatoi, cynllunio digwyddiadau, trefnu a darparu, cynnal a hylendid yr adeilad, ac i gadw llyfrau sylfaenol. Bydd hefyd nifer o ddigwyddiadau sy'n cynnwys clybiau lleol yn yr ardal. £60,271 dros flwyddyn, yn ariannu costau adeiladu ac adnewyddu.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir Gaerfyrddin	Llanelli LGBTQ+ Support	Bydd cefnogaeth Llanelli LGBTQ + yn Sir Gaerfyrddin yn ymgysylltu â'r gymuned LGBTQ + yn Llanelli. Bydd £9,400 yn ariannu offer, llogi ystafelloedd, digwyddiadau, marchnata, yswiriant, hyfforddiant iechyd a diogelwch, hyfforddiant cymunedol, a threuliau gwirfoddolwyr.
Sir Gaerfyrddin	MolTAN makers	Bydd gwneuthurwyr MolTAN yn Sir Gaerfyrddin yn cynnig cyfres o weithdai gwneud llwydni a castio metel, i helpu lles meddyliol trigolion lleol. Bydd £8,696 yn ariannu tywallt haearn a deunyddiau gweithdai, a chostau megis cludiant, gweithiwr sesiynol, yswiriant, a ffioedd hysbysebu.
Sir Gaerfyrddin	YABC	Bydd YABC yn Sir Gaerfyrddin yn helpu i adeiladu perthnasoedd cryf rhwng pobl ifanc yr ardal, trwy weithgareddau adeiladu tîm a gweithdai i fynd i'r afael â materion fel bwllo. Bydd £9,800 yn ariannu dodrefn, cyhoeddusrwydd, preswyl, offer cerdd, deunyddiau crefft, teithiau adeiladu tîm, a chostau gweithwyr sesiynol.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir y Fflint	Community Heart Productions	Bydd y prosiect yn ymgysylltu â phobl ifanc o Garden City, Glannau Dyfrdwy ac yn defnyddio'r celfyddydau i archwilio mater llygredd plastig yn yr ardal leol ynghyd â'i effaith ar fywyd gwyllt. Bydd gweithgareddau'n cael eu hanelu at bobl ifanc megis gweithdai, glanhau traethau, casglu sbwriel, teithiau addysgol a gwneud ffilmiau, gyda chyfranogiad ehangach y gymuned mewn digwyddiadau fel swperau di-blastig. £99,624 dros dair blynedd yn ariannu cyflogau, costau rhedeg prosiect, offer a gweithgareddau gan gynnwys gwersylloedd haf dibreswyl.
Sir y Fflint	Parkfields Community Centre	Bydd Canolfan Gymunedol Parkfields yn yr Wyddgrug yn defnyddio'r grant i ddarparu digwyddiadau chwaraeon i bobl ifanc o allu cymysg i godi ymwybyddiaeth o anabledd, cynyddu dealltwriaeth a chwalu stereoteipiau, trwy adeiladu perthnasoedd cryf ar draws y gymuned. Bydd £6,850 yn ariannu gweithwyr prosiect, gweithgareddau, offer, teithio, marchnata, gwerthuso, a threuliau gwirfoddolwyr.
Wrecsam	Bellevue Football Club	Bydd Clwb Pêl-droed Bellevue yn Wrecsam yn dod â'r gymuned aml-ethnig yn Wrecsam ynghyd trwy bêl-droed. Bydd £5,700 yn ariannu bws mini ac yswiriant.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol lle mae'r prosiect yn digwydd	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Ynys Môn	Ysgol Gynradd Parc y Bont	Bydd Ysgol Gynradd Parc Y Bont yn Ynys Môn yn prynu lloches i grwpiau cymunedol ei defnyddio ac i ddarparu seddi a lloches i drigolion oedrannus neu anabl mewn digwyddiadau i'w defnyddio. Bydd £9,395 yn ariannu gasebo gyda chladin.